# SIASBIN

Gan GRUFFUDD PARRI



*A'r gair Saesneg amdano yw 'shoehorn'.*

Y FLWYDDYN 1877, ac amgylchiadau byw yn Llŷn yn ddyrys ac yn anodd, a dau ben llinyn yn cau yn glir a dod at ei gilydd. 'Roedd hi'n dlawd ym mhlwyf Llangwnnadl ac yn fain ar ffermwyr ac ar grefftwyr fel Richard Williams y Gof oedd yn byw yng Nglan'rafon Bach.

Yr oedd y gof wedi priodi yn 1866 efo Ann, merch i gapten llong, llafnes ddwy ar bymtheg oed ac yntau ddeuddeng mlynedd yn hŷn na hi. A faint bynnag oedd er adeg y briodas yr oedd eu mab Richard wedi ei eni yn yr un flwyddyn 1866. William ymhen dwy flynedd, Ann ymhen pump arall a Dafydd y flwyddyn wedyn yn 1874.

Dim ond rhyw wyth neu naw acer o dir oedd i ganlyn Glan'rafon ond yr oedd o'n help — dwy fuwch a dynewad, mochyn neu ddau a'r ieir. Yr efail oedd ffon bara'r teulu, ond lle'r oedd pedwar o blant a'r ffermwyr yn hir yn talu biliau'r gofaint yr oedd arian yn mynd yn brin iawn.

Yn gwbl groes i'r graen, yr oedd Richard Williams wedi gorfod benthyg arian gan ffermwr cefnog o gyffiniau Sarn Mellteyrn i glirio'r rhent ym mis Mai 1877.

Ond hwyrach nad oedd yn poeni yn ormodol o orfod gwneud hynny a'r haf o'i flaen a llawer o arian allan, a hyder a ffydd penteulu deugain oed, yn dad i bedwar o blant, yn peri iddo feddwl y byddai Ann ac yntau wedi cael tro ar bethau cyn diwedd y flwyddyn ac y byddent wedi medru clirio'r cownt efo'r ffarmwr o'r Sarn.

* * * *

'ROEDD y gwanwyn yn mynd yn haf a'r dydd yn 'mestyn, ond 'doedd yr amgylchiadau yng Nglan'rafon ddim yn ymestyn i gyfateb. 'Doedd dim rhaid 'rhoi angen yr un rhwng y naw' efallai er mai dim ond o dri yr oeddan nhw'n fyr. A chyn dechrau haf p'run bynnag 'roeddan nhw'n gwybod fod yno blentyn arall ar y ffordd ac y byddai angen rhagor o fwyd a rhagor o ddillad a rhagor o sgidia.

Pedoli, cylchu olwynion troliau, rhoi dannedd mewn ogau oedd hi o ddiwrnod i ddiwrnod, a phrysurdeb yr awr yn pylu'r cof am bryderon fel tybed fyddai Ann yn iawn y tro yma eto, a'r ddyled i ŵr Crugeran.

Tua diwedd Awst y galwodd y gŵr hwnnw i ddweud y byddai'r llog ar yr arian yn ddyledus ym mis Tachwedd. Ofn oedd arno y gallai'r gof ddefnyddio'r llog i helpu i glirio rhent hanner blwyddyn arall. Fyddai dim angen gwneud hynny chwaith wrth lwc achos yr oedd arian y rhent bron iawn yn gyflawn yn y pwrs lledr yn nrôr y dresal.

'Bron iawn' oedd hi hefyd a dim llawer o olwg am gyfalaf na llog gŵr Crugeran. Fe alwodd o heibio unwaith neu ddwy yn ystod mis Medi a mis Hydref i awgrymu y byddai'n rhaid talu'r llog a rhywfaint o'r hawl.

Erbyn dechrau Tachwedd 'roedd hi'n amlwg na fyddai yna lawer o obaith iddo a phan alwodd o ychydig cyn pen tymor 'roedd o'n ddyn gwahanol iawn i'r benthyciwr arian clên oedd o wedi bod hanner blwyddyn ynghynt. Aeth mor bell â dweud y byddai'n rhaid i'r gof werthu rhywbeth neu y byddai yn dod yno i hawlio dodrefnyn neu anifail hyd o leiaf werth y llog.

Trawodd ei ben trwy ddrws y beudy ar ei ffordd at y llidiart a gweld bod yr hen fuwch yn agos i ddod â llo. 'O hyn i ben pythefnos' oedd ateb y gof. Iawn, fe gym'ra fo'r llo.

Byddai gorfod colli'r llo yn golygu na ellid gwerthu'r ddynewad yn ôl cynllun pethau a bu'n edifar gan Richard Williams ac Ann iddynt erioed fenthyca'r arian, ac yn lle'r llawenydd disgwylgar arferol pan ddechreuodd yr hen fuwch ddangos fod llo bach ar ei ffordd, pryder oedd yng Nglan'rafon.

Llo gwryw nobl oedd o a'r gof yn gresynu wrth ei sychu o ar y llaesod na fyddai'n cael ei fagu. Ond cyn iddo gael cyfle i'w symud yr oedd dau droed arall yn y golwg a chwaer bach i'r llo gwryw yn y rhigol yn fuan iawn.

* * * *

AETH Richard Williams i Grugeran drannoeth i ddweud fod y fuwch wedi dod â llo ac y byddai yn ei ddanfon yno ymhen rhyw fis neu chwech wythnos. Gyda'r nos y diwrnod hwnnw aeth Ann yn sâl a ganed merch arall i'r teulu — Jane.

Aed â'r llo gwryw i Grugeran yng nghyflawnder yr amser, ychydig cyn y Nadolig, a magwyd y llo bach arall, a chafwyd gwerthu'r ddynewad a chael tro bach ar fyd.

Erbyn 1887, y flwyddyn y ganed Margaret, merch ieuenga'r teulu, yr oedd Richard Williams y gof yn hanner cant oed ac yn dad i naw o blant. Cafodd y naw eu gwala a'u gweddill a bu'r teulu yn un digon hapus. Yr oedd yr hogia hynaf wedi mynd i weini ffarmwrs erbyn hynny ac yn medru helpu at fagu'r rhai ienga. Yr oedd llo fanw 1877 wedi cael ei fagu i ddod yn fuwch a bu'n cyd-oesi â Jane am ddwy flynedd ar bymtheg, ac yn naturiol ddigon yr oedd hanes geni'r ddwy yn tyfu'n rhan o chwedloniaeth y teulu.

Bu farw'r hen fuwch yn ddwy ar bymtheg oed yn 1894, yr un flwyddyn ag yr oedd Jane yn mynd i weini i Lerpwl. Y bore 'roedd hi'n dal y goets i fynd i Bwllheli i gyfarfod y trên fe roddodd ei thaid siasbin yn bresant iddi hi — siasbin oedd o ei hun wedi ei wneud o gorn yr hen fuwch a JW wedi ei dorri ar ei garn.

Mae'n anodd dweud faint o wir sydd yn y stori erbyn hyn. Ond mae'r siasbin yn gweithio'n iawn.

# TANYSGRIFWYR RHYS LEWIS

Gan G.G.EVANS

*Cofiant o bennod i bennod yn ystod y tair blynedd ddiwethaf am gael y rhelyw o hono, ac os gwelaf argoelion sicr na fydd yr anturiaeth yn golled, cyhoeddaf ar fyrder yr Hunangofiant yn gyfrol ddestlus, ac am bris rhesymol. Ond pa fodd gwybyddaf a oes awydd ai nid oes? Wel, nis gwn ond am un ffordd, sef drwy i'r arwyddwyr a'r arwyddesau ysgrifenu yn ddioedi at D. Owen, Mold.*

DRO'N ÔL darganfum fod ar ddiwedd yr argraffiad cyntaf o *Rhys Lewis* 'List of Subscribers'. (Ie, yn Saesneg.) O droi i ddechrau'r llyfr, yn 'At y Darllenydd' cawn yr awdur yn ymesgusodi 'am beth mor chwithig' ynglŷn â nofel trwy ddatgan ei ofn y byddai'n 'cael ei hun ryw ddiwrnod yn cynnal ei ben rhwng ei ddwylaw' o fentro cyhoeddi.

Fy niddordeb cyntaf ydoedd gweld faint o danysgrifwyr a gafwyd o'r sir hon (Maldwyn). Ychydig. Yna dyfalu pa mor gymharol ydoedd yr ychydig. Arweiniodd hyn i gyfrif enwau a'r nifer copïau gyferbyn a'r enwau yn y rhestr. Y ffigurau a gefais ydoedd 590 a 991. (Bydded y darllenydd mor garedig a chadw mewn cof nad cyfrifiadur fu'n rhifo a didoli ond creadur meidrol yn brasgyfrif.)

Dechrau'r ymdrech i ddenu tanysgrifwyr ydoedd nodyn ar ddiwedd y gyfran o *Rhys Lewis* yn *Y Drysorfa* am Ragfyr 1884, sef Pennod XII o'r Drydedd Ran. (Pennod XXXVIII yn ddiweddarach yn y llyfr.)

*Wele ddiwedd blwyddyn arall, a'r Hunangofiant heb ei gyhoeddi yn gyflawn . . . Mae amryw benodau dyddorol eto yn ôl; ond ni chyhoeddir rhagor yn Y DRYSORFA, gan nad da gormod o ddim. Pa fodd bynag, os bydd awydd gan y rhai a ddilynasant y*

A wnaethpwyd mwy na hyn i hysbysebu am danysgrifiadau? Beth a wnaeth y cyhoeddwr, J. L. Morris, Heol Newydd, Yr Wyddgrug, tybed?

* * * *

SUT BYNNAG am hynny ystyriai'r awdur yr ymateb yn foddhaol iawn: 'yn anghydmarol, ymron, mewn llenyddiaeth Gymreig'. Yn sicr ddigon gallai ymhyfrydu yn y gefnogaeth 'o'i wlad ei hun,' — mae 'Mold' yn gyfeiriad i 70 o enwau, mae 22 arall o Sir y Fflint a nifer o'r cyffiniau tros Glawdd Offa (yn bennaf Caer gydag 11, a Chroesoswallt gyda 21). Cafwyd hefyd gefnogaeth sylweddol o siroedd Dinbych (69), Meirionydd (40), Môn (28) a Chaernarfon (65).

Nid dyma ddiwedd y gefnogaeth o dair o'r siroedd fel y gwelir isod pan fanylir am archebion llyfrwerthwyr. Hefyd ar ddiwedd y rhestr tanysgrifwyr mae rhestr ychwanegol yn cynnwys 82 o enwau 'per R.O., Bookseller, Bethesda'.

Cyfeiriwyd eisoes at danysgrifwyr o Groesoswallt a Chaer. 26 sydd o Lerpwl ei hun gyda dau neu dri o leoedd eraill fel Bolton a Rochdale. 8 gafwyd o Fanceinion, 4 o Birmingham a 12 o Lundain. Tanysgrifiodd y Cymry hynny a ymfudodd i Egremont yn Cumbria yn llawer gwell — 14 ohonynt.

Yn ôl i Gymru. O symud o'r gogledd cawn 11 yn Sir Drefaldwyn a 5 yng Ngheredigion. Ni synnais gael dim ond un ym Maesyfed. Annisgwyl ydoedd y ffigurau am y gweddill o Gymru — Morgannwg 5 (am 9 llyfr), Caerfyrddin dim, Mynwy 1, Brycheiniog 1, Penfro 7.

Un yw'r nifer copïau gyferbyn a'r rhelyw o'r enwau ond yma ac acw ceir unigolyn am ddau neu dri a rhai, llawer ohonynt yn 'booksellers', yn archebu mwy. Dyma ble roedd galwad am becynnau o ddeuddeg neu fwy o gopïau:

**Pwllheli 36, yr Wyddgrug 20, Blaenau Ffestiniog 24, Students Bala College 37, a 12 yr un i Bentrefoelas, Llangollen, Llangollen eto (i weinidog), Ffestiniog, Bontnewydd ac Aberangell, Cemmaes, Mont.**

*I dudalen 11*